**Cyfarfod Pwyllgor Cymru y BBC**
**COFNODION**

Dydd Llun 5ed Mehefin

2023 Y Sgwâr Canolog,

Caerdydd

**EITEMAU BUSNES**

1 Cyflwyniad a chofnodion cyfarfod blaenorol Pwyllgor Cymru

2 Adroddiad Cyfarwyddwr Cymru

3 Adroddiad Cyfarwyddwr y Cenhedloedd

4 Adroddiad Blynyddol ar gyfer Cymru

5 Gweledigaeth BBC Radio Wales

6 Cynulleidfaoedd

7 Cyllid

8 Unrhyw fater arall a chau'r cyfarfod

**YN BRESENNOL**

*Aelodau:*

- Elan Closs Stephens (Cadeirydd), Cyfarwyddwr Anweithredol
- Rhodri Talfan Davies, Cyfarwyddwr, Y Cenhedloedd
- Rhuanedd Richards, Cyfarwyddwr, BBC Cymru
- Rhys Evans, Pennaeth Materion Corfforaethol a Pholisi Cyhoeddus, BBC Cymru

*Gyda:*

- Carolyn Hitt, Uwch Bennaeth Cynhyrchu Cynnwys, BBC Radio Wales (ar gyfer eitem 5)
- Gareth Davies, Uwch Bennaeth Marchnata (ar gyfer eitem 6)
- Mark Wade, Partner Busnes Cyllid (ar gyfer eitem 7)

- Lee Gibbs, Arweinydd Gweithredol (Ysgrifennydd)
- Richard Crook, Arsylwi

**COFNODION PWYLLGOR CYMRU – Dydd Llun 5ed Mehefin 2023**

1. **Cyflwyniad a chofnodion cyfarfod blaenorol Pwyllgor Cymru**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Richard Crook, Partner Busnes yn swyddfa'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, a oedd yn arsylwi yn y Pwyllgor.

1.2 Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Pwyllgor yn cael ei ddiweddaru am gyfarwyddwr anweithredol newydd ar ôl ymddeoliad Ian Hargreaves yn gynharach eleni.

1.3 Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod diwethaf y Pwyllgor (23ain Mawrth 2023) ac ni chyflwynwyd unrhyw wrthdaro newydd.

2. **Adroddiad Cyfarwyddwr BBC Cymru**

2.1 Llongyfarchodd y Cyfarwyddwr Elan Closs Stephens ar gael ei gwneud yn Gadeirydd Dros Dro y BBC.

2.2 Soniwyd wrth y Pwyllgor am effaith *Steeltown Murders.* Amlinellodd y Cyfarwyddwr pa mor falch oedd hi bod y tîm wedi adrodd stori'r dioddefwyr dan sylw gyda sensitifrwydd. Roedd y rhaglen hyd yma wedi cael 9m o geisiadau gwylio ar iPlayer.

2.1 Clywodd y Pwyllgor am y teitlau sydd wrthi'n cael eu cynhyrchu yng Nghymru. Mae Michael Sheen yn cyfarwyddo ac yn serennu yn *The Way.* Mae *Lost Boys and Fairies* wrthi'n cael ei ffilmio. Bydd *Wolf*, sydd wedi'i lleoli yn Sir Fynwy, yn cael ei darlledu ym mis Gorffennaf.

2.2 O ran newyddion, bu'n gyfnod prysur. Coroni'r Brenin, terfysg Trelái, honiadau bwlio S4C a phroblemau Plaid Cymru yn ogystal â dyrchafiad clwb pêl-droed Wrecsam. Cafodd y stori newyddion ar-lein am derfysg Trelái ei gweld dros 3.1m o weithiau. Cafodd cynnwys Cymru 9.6m o borwyr unigryw yr wythnos honno. Gweithiodd tîm BBC Cymru hefyd gyda brand BBC Verify ar stori Trelái.

2.3 Clywodd y Pwyllgor iddi fod yn gyfnod prysur i newyddiaduraeth ymchwiliol yng Nghymru.

2.4 Nododd y Pwyllgor waith diweddar Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC. Cafodd ei rhoi ar restr fer gwobrau y South Bank Sky Arts Awards a gweithiodd ar y cyd ag Apple TV ar *Prehistoric Planet 2* gan weithio gyda Hans Zimmer. Cafwyd taith o ysgolion De Cymru hefyd.

2.5 Nododd y Pwyllgor fod carfan newydd o 17 o brentisiaid yn cael eu cyflogi yn ogystal â phedwar person ar y rhaglen hyfforddai anabledd.

3. **Adroddiad Cyfarwyddwr y Cenhedloedd**

3.1 Dywedodd Cyfarwyddwr y Cenhedloedd wrth y Pwyllgor am y cynllun Ar Draws y DU. Cafwyd nifer o lwyddiannau, gan gynnwys yng Nghaerdydd, yn ogystal â ledled Lloegr.

3.2 Roedd y gwaith ar yr adolygiad cyfryngau cymdeithasol yn parhau.

3.3 Nododd y Pwyllgor fod ap BBC News ar ei newydd wedd ar fin cael ei lansio yn ystod y pedair i chwe wythnos nesaf, gan gymryd elfennau o ap BBC Sport.

3.4 Clywodd y Pwyllgor fod y gwaith yn parhau ar amlygrwydd y cenhedloedd ar iPlayer.

**4. Adroddiad Blynyddol ar gyfer Cymru**

4.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor eiriad drafft yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer Cymru.

**5. Gweledigaeth BBC Radio Wales**

5.1 Dywedodd yr Uwch Bennaeth Cynhyrchu Cynnwys wrth y Pwyllgor am ei chynlluniau ar gyfer BBC Radio Wales, gan gynnwys gwarchod y gynulleidfa graidd, cynyddu cynulleidfaoedd cyfle, cofleidio digidol a hyrwyddo Cymru.

5.2 Clywodd y Pwyllgor am gynlluniau i wella ffigurau Rajar, cael metrigau Sounds a Chyfryngau Cymdeithasol gwell, ysgogi staff a gosod yr agenda newyddion.

5.3 Clywodd y Pwyllgor am newidiadau i'r amserlen ar draws y dydd, gan gynnwys y sioe frecwast gyda dau gyflwynydd, yn ogystal â gwneud defnydd gwell o gynnwys ar gyfer cynulleidfaoedd digidol a chynnig straeon y gellid eu datblygu ar draws y dydd.

5.4 Clywodd y Pwyllgor fod tîm BBC Radio Wales yn edrych ar dargedau cyrhaeddiad cynulleidfaoedd ar Sounds yn 2023/24.

**6. Cynulleidfaoedd**

6.1 Clywodd y Pwyllgor benawdau o'r adroddiad cynulleidfaoedd, gan gynnwys bod BBC Cymru wedi perfformio'n dda o ran cyrhaeddiad. Cafodd targedau iPlayer eu heffeithio gan rai teitlau yn symud i flwyddyn ariannol 2023/24.

6.2 Clywodd y Pwyllgor fod perfformiad gwylio ar deledu yn gadarn.

6.3 Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod *Steeltown Murders* wedi cael 9m o geisiadau ar iPlayer hyd yma, gan gynnwys 800k yn ystod yr wythnos ddiwethaf. Roedd dyrchafiad clwb pêl-droed Wrecsam yn sbardun cadarn i gynulleidfaoedd ar draws pob platfform.

6.4 Clywodd y Pwyllgor am ffigurau diweddaraf Rajar, gyda Radio Wales i lawr o un flwyddyn i'r llall. Roedd perfformiad Radio Cymru yn sefydlog.

**7. Cyllid**

7.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad cyllid.

## 8. Unrhyw Fater Arall

8.1 Diolchodd y Cadeirydd i aelodau'r Pwyllgor a phawb a gyfrannodd at y cyfarfod.